

Cylchlythyr

Circular

Datblygu Dimensiwn Rhanbarthol i Gynllunio a Chyflwyno Addysg Uwch

Dyddiad: 16 Chwefror 2010
Cyfeirnod: W10/06HE
I: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru;
Prifathrawon sefydliadau addysg bellach yng Nghymru;
darparwyr ôl-16 yng Nghymru
Copiau i: Awdurdodau lleol; Cynghorau Sgiliau Sector; cyflogwyr a'r
grwpiau sy'n eu cynrychioli; cyrff/pobl eraill sydd â
diddordeb
Ymateb erbyn: 31 Mawrth 2010 i rachel.ogorman@hefcw.ac.uk
Cysylltiad: Enw: Celia Hunt/Dr Ewen Brierley
Ffôn: 029 2068 2224/029 2068 2291
E-bost: celia.hunt@hefcw.ac.uk
ewen.brierley@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys, ar gyfer ymgynghori, ein cynigion ar gyfer datblygu dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflwyno addysg uwch.

Roedd *Er Mwyn Ein Dyfodol*, *Cynllun a Strategaeth Addysg Uwch yr 21^{ain} Ganrif i Gymru* yn cynnwys y disgwyliad y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda rhanddeiliaid a CCAUC, yn 'datblygu dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflwyno addysg uwch'.

Wrth geisio barn yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi nodi'r materion allweddol yr ydym wedi'u hystyried a'r ffactorau yr ydym wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu ein cynigion. Wedyn awn ymlaen i drafod y broses y byddwn yn ei mabwysiadu i weithredu strategaethau rhanbarthol a nodwn ein disgwyliadau o ran cwrdd â gofynion y Strategaeth *Er Mwyn Ein Dyfodol* drwy ailgyflunio a chydweithio.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein, mewn print bras, mewn Braille, ar CD ac ar CD a chasét sain. Os hoffech chi neu rywun yr ydych chi'n ei adnabod gael y ddogfen mewn fformat arall, byddwch cystal â chysylltu â ni drwy ffonio (029) 2068 2225 neu e-bostio info@hefcw.ac.uk.



Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys, ar gyfer ymgynghori, ein cynigion ar gyfer datblygu dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflwyno addysg uwch.
2. Roedd *Er Mwyn Ein Dyfodol, Cynllun a Strategaeth Addysg Uwch yr 21^{ain} Ganrif i Gymru*¹ yn cynnwys y disgwyliad y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda rhanddeiliaid a CCAUC, yn 'datblygu dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflwyno addysg uwch'.
3. Wrth geisio barn yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi nodi'r materion allweddol yr ydym wedi'u hystyried a'r ffactorau yr ydym wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu ein cynigion. Wedyn awn ymlaen i drafod y broses y byddwn yn ei mabwysiadu i weithredu strategaethau rhanbarthol a nodwn ein disgwyliadau o ran cwrdd â gofynion y Strategaeth *Er Mwyn Ein Dyfodol* drwy ailgyflunio a chydweithio.
4. Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd sylwadau gan sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, darparwyr ôl-16 eraill, awdurdodau lleol, cyflogwyr a'r cyrff sy'n eu cynrychioli, a chyrff a phobl eraill sydd â diddordeb. Dylid anfon ymatebion i Rachel O'Gorman yn Rachel.OGorman@hefcw.ac.uk <<mailto:Rachel.OGorman@hefcw.ac.uk>> erbyn 31 Mawrth 2010. Bydd gwahoddiad i gyflwyno strategaethau rhanbarthol, ynghyd â'r arweiniad cysylltiedig, yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai, a bydd yn cymryd yr ymatebion i'r cylchlythyr hwn i ystyriaeth.

Cefndir

5. Strategaeth a chynllun newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yw *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Mae'n adeiladu ar y strategaeth flaenorol *Ymgeisio'n Uwch* (2002) ac yn cymryd ei lle. Cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi cryf yw'r ddau faes sy'n sylfaen i'r Strategaeth. Wrth dargedu'r ddau faes hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi ystod o weithredoedd i ddatblygu'r weledigaeth a gyflwynir yn y Strategaeth. Ystyrir bod CCAUC yn bartner allweddol o ran cyflawni hyn a rhoddwyd iddo y dasg o weithredu'r cynllun.
6. Yn y Strategaeth gofynnir i ni
'archwilio, datblygu a chydlynu, ar y cyd â'r gymuned addysg uwch, y gwaith o ddatblygu strwythur cynllunio a chyflwyno rhanbarthol yng Nghymru a all nodi'r angen, a mynd i'r afael â'r angen hwnnw, gan ddangos yr un pryd y defnydd gorau o adnoddau' [para 76i].

¹ <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091214hestrategyen.pdf>

7. I gefnogi'r disgwyliad hwn, ceir rhai cyfeiriadau eraill yn y Strategaeth at y dimensiwn rhanbarthol sydd wedi cyfrannu at ddatblygu ein cynigion. Mae'r rhain yn cynnwys:
- 'Bydd hwn yn rhan bwysig o'r system addysg uwch arfaethedig, a'r nod fydd dileu cystadleuaeth leol ddibwys a dyblygu gwastraffus mewn darpariaeth' [para 41].
 - Bydd hefyd yn cefnogi'r 'gwaith o ddatblygu màs critigol ... yng Nghymru' [para 41].
 - 'drwy gydweithio, [bydd] anghenion a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn cael eu pennu a'u diwallu'n well' a bydd 'llwybrau dilyniant cliriach at addysg uwch ar gael o'r ysgol, y gymuned, y gweithle, ac addysg bellach.' [para 42].
 - 'Fe fydd system addysg uwch genedlaethol yn cael ei chreu ar gyfer Cymru: bydd gan ddarparwyr gwahanol gryfderau gwahanol a chenadaethau gwahanol, ond byddant yn cydweithio i ategu a gwella'u cryfderau a'u cenadaethau unigol. Byddant yn ffurfio system ehangach a mwy cydlynus o ddarparwyr, a fydd yn cynnwys colegau addysg bellach yn ogystal â sefydliadau addysg uwch. Byddant yn cydweithio a bydd y gallu ganddynt i ddarparu addysg uwch o safon uchel bob amser.' [para 36].
 - Mynegir dymuniad hefyd i weld mwy o enghreifftiau 'o'r math o ddull sy'n cael ei ddefnyddio ym Mlaenau'r Cymoedd lle mae sgiliau a chyfranogaeth isel mewn addysg uwch yn cael sylw drwy bartneriaeth gydweithredol a ffyrdd aml-sector o weithio, o fewn cyd-destun cyffredinol adfywio economaidd a chymdeithasol rhanbarthol.' [para 7].
8. Yn *Transforming the Education and Training Provision in Wales* (2008), nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bwriad i ofyn i ddarparwyr am gynlluniau i wella cyfleoedd dysgu i bob dysgwr ôl-16. Bu'r pwyslais hyd yma ar ddarparwyr ôl-16 yn bennaf (ysgolion, darparwyr dysgu yn-y-gwaith, a sefydliadau AB), er bod rhai sefydliadau addysg uwch wedi cymryd rhan. Yn *Transformation – Y Siwrna*² (2009) manylir ar y camau a gymerwyd i weithredu cam ôl-16 y polisi trawsnewid, a thynnir sylw at y bwriad i estyn y polisi i gwmpasu pob cyfnod mewn addysg a hyfforddiant. Mae'r ddogfen hon yn un cyfrwng ar gyfer gweithredu'r bwriad hwnnw mewn perthynas â darpariaeth addysg uwch.
9. Wrth ddatblygu agenda rhanbarthol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, mae'n bwysig deall yr hyn y mae'n ymwneud ag ef a'r hyn nad yw'n ymwneud ag ef:
- Y nod yw gwella darpariaeth yn rhanbarthol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr y mae cyfyngiadau daearyddol, am ba reswm bynnag, yn

² [<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091125transformationen.pdf>]

effeithio arnynt, ac ar gyfer cyflogwyr sy'n ceisio cymorth addysg uwch, o ba fath bynnag, yn lleol;

- Mae'n ymwneud â dod i gytundebau â phartneriaid i sicrhau bod mwy o bynciau ar gael (yn enwedig pynciau a ystyrir o bryd i'w gilydd yn flaenoriaethau) a gwella mynediad daearyddol, llwybrau dilyniant ac ymatebolrwydd i anghenion lleol;
 - Mae'n ymwneud hefyd â gweithio gyda phartneriaid i alluogi cyflogwyr i ddod o hyd i'w ffordd yn gyflym i gymorth lleol perthnasol, ni waeth ble y maent hwy'n gwneud eu hymholiad cyntaf;
 - Mae'n ymwneud â gwneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cyflwyno AU ledled Cymru drwy fanteisio ar gryfderau cydategol gwahanol ddarparwyr a'u gwella;
 - Nid yw'n ymwneud â chael sefydliadau addysg uwch i weithio yn eu rhanbarth hwy yn unig. Nid oes dim yn y datblygiad polisi hwn sydd â'r bwriad o gwtogi ar yr amrywiaeth eang a phwysig o weithgareddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd ym meysydd addysgu, ymchwil a thrydedd genhadaeth ar raddfa Cymru gyfan, DU gyfan neu ryngwladol, ac eithrio lle y mae'n amlwg bod dyblygu lleol gwastraffus a chystadleuaeth ddibwys gysylltiedig.
10. Ceir enghreifftiau eisoes mewn gwahanol rannau o Gymru o'r arferion a geisir, felly byddai'n werthfawr i sefydliadau a phartneriaid gymharu nodiadau wrth iddynt ddatblygu eu hymatebion.

Beth yw ystyr 'rhanbarthol' yn y cyd-destun hwn?

- **Dylai fod yn fesuradwy.**
11. Er mwyn datblygu system cynllunio a chyflwyno, rhaid i ni allu alinio ffiniau rhanbarthol â'r hyn sy'n fesuradwy. Er y gall ffiniau fod yn athraidd neu'n orgyffyrddol, mae angen i ni allu cyrchu cronfa gynhwysfawr o dystiolaeth a fydd o gymorth wrth gynllunio a chyflwyno darpariaeth a monitro canlyniadau. Mae'r angen am fecanweithiau cadarn ar gyfer pennu dyraniadau a mesur canlyniadau yn arbennig o bwysig wrth ystyried yr effaith bosibl ar fethodolegau cyllido.
12. Yng nghyd-destun addysg uwch ar raddfa y DU ac yn rhyngwladol, gellir cymharu Cymru fel rhanbarth â Lloegr a'r Alban, yn ogystal â Gogledd Iwerddon. Ond ar raddfa leol, mae llawer ffordd o ddiffinio 'rhanbarth'.
- **Dylai adeiladu ar y cynlluniau a chydweithio presennol a gyllidir gan CCAUC.**
13. Mae CCAUC eisoes yn cefnogi sawl menter gydweithiol ranbarthol drwy ein cynlluniau a'n cyllid. Wrth ddatblygu dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflwyno addysg uwch, byddem yn dymuno adeiladu ar y mentrau cydweithiol presennol hyd y bo modd. Mae mentrau cydweithiol presennol a gefnogir gan CCAUC yn cynnwys y canlynol.

14. Mae ein Cynllun Ymggyraedd yn Ehangach (YE), a fu ar waith ers 2003, wedi'i seilio ar bedair partneriaeth ranbarthol ar hyn o bryd.
- De-Ddwyrain Cymru (First Campus: aelodau AU rhanbarthol: Prifysgol Morgannwg (Morgannwg); Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (APCC); Prifysgol Cymru, Casnewydd (PCC); Prifysgol Caerdydd (PC));
 - De-Orllewin Cymru (Prifysgol Abertawe (PAbertawe); Prifysgol Fetropolitan Abertawe (PFA); Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin (CPDC));
 - Gorllewin a Chanolbarth Cymru (Prifysgol Aberystwyth (PAberystwyth); Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan (PCLI));
 - Gogledd Cymru (Prifysgol Bangor (PB); Prifysgol Glyndŵr (Glyndŵr)).
15. Rydym wedi annog y pedair partneriaeth i weithio gyda'i gilydd ac wedi cyllido amryfal weithgareddau Cymru gyfan ar draws y partneriaethau. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn aelod o ddwy Bartneriaeth a byddem yn disgwyl iddi fod yn aelod o bob partneriaeth YE ranbarthol. Rydym wedi nodi ein bwriad i adolygu strwythurau'r partneriaethau. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth y cyfuniad sydd ar y gweill rhwng CPDC a PCLI a fydd yn torri ar draws dwy o'r partneriaethau presennol ac sy'n debygol o arwain at ostyngiad yn nifer y partneriaethau o bedair i dair.
16. Rydym yn cefnogi ailgyflunio Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn dair Canolfan Addysg Athrawon ranbarthol wedi'u lleoli yn y De-Ddwyrain (APCC a PCC); y De-Orllewin (PFA a CPDC); a'r Gogledd a'r Gorllewin (PAberystwyth a PB), gan gynnwys paratoi strategaethau HCA ar y cyd rhwng y Canolfannau.
17. Drwy ein cyllid Trydedd Genhadaeth rydym yn cefnogi amryfal fentrau cydweithiol rhanbarthol, gan gynnwys Canolfan Sgiliau Aber-Bangor (PAberystwyth a PB) a Phartneriaeth Arloesedd y Ddraig (PAbertawe, PFA a CPDC).
18. Mae ein Cyllid Ailgyflunio a Chydweithio yn cefnogi amrywiaeth o ddatblygiadau cydweithiol ar draws Cymru. Mae dimensiwn rhanbarthol i rai o'r gweithgareddau hyn: cyfuno Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru a PC; cyfuno Morgannwg a Choleg Merthyr, ac yna Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru; cyfuno CPDC a PCLI; Partneriaeth Addysg Uwch De-Orllewin Cymru sy'n hybu rhannu gwasanaethau rhwng y tri sefydliad addysg uwch yn Ne-Orllewin Cymru (PAbertawe, PFA a CPDC); Partneriaeth Ymchwil a Menter Aberystwyth a Bangor; datblygiadau cydweithiol a chyfalaf rhwng Glyndŵr a Choleg Glannau Dyfrdwy mewn perthynas â darpariaeth arddwriaethol; Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd (Morgannwg/Coleg Merthyr, CPC a Choleg Gwent).
19. Yn yr holl fentrau cydweithiol hyn a gefnogir gan CCAUC, ac yn fwy eang, rydym yn dechrau gweld cyfnerthu gweithgareddau, a hynny'n

bennaf yn ardaloedd De-Ddwyrain Cymru, De-Orllewin Cymru, a Chanolbarth a Gogledd Cymru.

- **Dylai gymryd i ystyriaeth bolisiau rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru lle y bo'n briodol**

20. Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Pobl, Llefydd, Dyfodol: Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru*³, yn diffinio chwe rhanbarth yng Nghymru: Canol Cymru; Gogledd-Ddwyrain Cymru – Y Gororau a'r Arfordir; Gogledd-Orllewin Cymru – Eryri a Môn; Sir Benfro – Yr Hafan; De-Ddwyrain Cymru – Rhanbarth y Brifddinas; Bae Abertawe – Y Glannau a'r Cymoedd Gorllewinol.
21. Mae'r mwyafrif o'r prifysgolion, ond nid pob un, yn aelodau o Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol. Mae'n bosibl nad yw pob sefydliad addysg uwch yn aelod gan nad oes cyfatebiaeth amlwg rhwng meysydd gweithredu'r sefydliadau dan sylw ac ardaloedd y Cynllun Gofodol. Yn ogystal, mae'r 'ffiniau annelwig' yn y Cynllun Gofodol, sydd heb eu diffinio gan ffiniau gweinyddol, yn ei gwneud hi'n anodd i ni ddefnyddio'r ardaloedd hyn fel y maent oherwydd yr angen am fesurau diffiniedig.
22. Mewn strategaethau eraill o eiddo Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig ym maes addysg, ceir strwythurau rhanbarthol eraill sydd hefyd yn berthnasol i weithrediad sefydliadau addysg uwch. Er enghraifft, mewn addysg: Partneriaethau Pobl Ifanc (11-25 oed) (22 bartneriaeth mewn awdurdodau lleol); Partneriaethau Dysgu Cymunedol Oedolion (19+ oed) (9 partneriaeth arfaethedig); Canolfannau Cymraeg i Oedolion (6 chanolfan ar draws Cymru, 5 ohonynt mewn sefydliadau AU). Mae'r ardaloedd 'Cymunedau'n Gyntaf' dynodedig (mae 188 o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ar draws Cymru bellach) sy'n rhan o gynlluniau ehangu mynediad CCAUC yn berthnasol hefyd⁴.
23. Ar ôl ymchwilio i'r gwahanol ffyrdd y pennir ffiniau ar draws Cymru mewn perthynas â pholisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n amlwg bod y rhanbarthau'n cael eu diffinio i gwrdd â gofynion y polisi penodol. Felly, er y byddwn yn cymryd i ystyriaeth y gwahanol ddiffiniadau hyn, bydd ein diffiniad ni yn adeiladu ar y trefniadau partneriaeth yr ydym eisoes wedi'u sefydlu i gwrdd â gofynion neilltuol datblygu'r system addysg uwch.

- **Dylai gymryd i ystyriaeth lleoliad daearyddol y sefydliad a'r math o sefydliad.**

24. Rydym wedi ystyried lleoliad sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. Er ein bod ni'n cydnabod pwysigrwydd cynyddol dysgu o bell a dysgu wedi'i wella gan dechnoleg, yn ogystal â rôl Cymru gyfan y Brifysgol Agored a'r Coleg Ffederal mewn perthynas â darpariaeth

³ [<http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/strategy/spatial/?lang=en>]

⁴ [http://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/widening_access/widening_access.aspx]

cyfrwng Cymraeg, pan gaiff ei sefydlu, un o'r ystyriaethau allweddol fyddai amser 'teithio i astudio' (gweler para 32 isod).

25. Rydym wedi cymryd i ystyriaeth genadaethau'r sefydliadau addysg uwch, sy'n amrywio o ran eu pwyslais cymharol ar addysgu, ymchwil, ehangu mynediad a/neu drydedd genhadaeth ac o ran y flaenoriaeth a roddir i'w gweithrediadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

Ein cynigion

26. Felly cynigiwn y dylem weithio ar sail tri rhanbarth wedi'u diffinio fel a ganlyn yn nhermau sefydliadau addysg uwch:
- **De-Ddwyrain Cymru**, sy'n cynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Morgannwg, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd a Phrifysgol Cymru, Casnewydd;
 - **De-Orllewin Cymru**, sy'n cynnwys Prifysgol Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin a Phrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan;
 - **Canolbarth a Gogledd Cymru**, sy'n cynnwys Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr.
27. Ym mhob un o'r ardaloedd daearyddol hyn rydym yn bwriadu gweithio gyda darparwyr addysg uwch, addysg bellach ac ôl-16 i ddatblygu llwybrau dilyniant i addysg uwch ac i hybu cydweithio rhwng darparwyr AU – yn y sectorau AU ac ôl-16 – mewn amrywiaeth o feysydd polisi. Disgwyllem i'r Brifysgol Agored yng Nghymru fod yn rhan o'r tri rhanbarth. Hefyd bydd angen i'r rhanbarthau gymryd y Coleg Ffederal Cymru gyfan i ystyriaeth wrth iddo ddatblygu.
28. Gan gydnabod, fel y gwna ein dadansoddiad uchod, nad yw unrhyw ddiffiniad o ranbarthau'n cyd-fynd â'r holl amgylchiadau, rydym yn agored i'r posibilrwydd y gall sefydliad, lle y mae'n gwneud synnwyr, weithio gyda rhanbarthau eraill yn ogystal â'r un yr ydym wedi'i gysylltu ag ef.
29. Nid ydym wedi nodi yma unrhyw ddisgwyliadau mewn perthynas â Cholegau AB gan eu bod yn cael eu cyllido'n bennaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ond, lle y mae darpariaeth addysg uwch yn cael ei gwneud mewn sefydliadau addysg bellach, byddwn yn dymuno gweithio'n agos â Cholegau Cymru/Colleges Wales y mae ganddo dri rhwydwaith rhanbarthol cyffelyb. Y rhain yw: Gogledd; De-Orllewin; a De-Ddwyrain.

Cw1 A ydych chi'n cefnogi'r diffiniad o 'ranbarth' yr ydym yn cynnig ei fabwysiadu? Os nad ydych, amlinellwch eich cynnig chi a'r dystiolaeth drosto.

Beth yw ystyr 'angen' yn y cyd-destun hwn?

30. Wrth ystyried y cwestiwn hwn, buom yn ystyried dau fath o dystiolaeth yn arbennig: dadansoddiad o fyfyrwyr addysg uwch (gan gynnwys llifoedd traws-ffiniol) yn erbyn ardaloedd o boblogaeth yng Nghymru; a gwaith a wnaed gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr i ddatblygu 'cronfa gyffredin o dystiolaeth' ar gyfer asesu cynigion ar gyfer darpariaeth addysg uwch newydd⁵.
31. Wrth edrych ar y gymhareb o fyfyrwyr addysg uwch (mewn SAUau Cymreig a Cholegau AB a gyllidir yn uniongyrchol) i boblogaeth, buom yn ystyried:
- Lefel a modd: Niferoedd amser-llawn, rhan-amser ac israddedig;
 - Math o ddarparwr: SAU, trefniant ffranseis, wedi'i gyllido'n uniongyrchol;
 - Cartref (yn y rhanbarth, yng ngweddill Cymru, yng ngweddill y DU, tramor);
 - Llifoedd traws-ffiniol.
32. Ffactorau o'r gwaith a wnaed gan CCAULI ar y Gronfa Gyffredin o Dystiolaeth yw:
- Maint, natur a lleoliad y ddarpariaeth AU bresennol a darpariaeth sydd yn yr arfaeth: edrych ar ddwysedd y ddarpariaeth mewn ardal;
 - Amcangyfrif o'r parth lleol ar gyfer lleoliad cyflwyno AU: mae'r lefel o ddarpariaeth yn nhermau darpariaeth 'leol' yn cael ei diffinio yn nhermau amserau teithio: diffinnir darpariaeth 'leol' fel darpariaeth sy'n llai na 45 munud o amser teithio o'r safle lle y cyflwynir y ddarpariaeth;
 - Y boblogaeth a llai elwa o ddarpariaeth ychwanegol (dwyseddau poblogaeth ifanc ac aeddfed a'r lefel o sgiliau yn y boblogaeth aeddfed);
 - Daearyddiaeth a dosbarthiadau ardal: mesurau o anfantais (lefelau isel o gyfranogiad mewn AU; lefelau isel o incwm; lefelau uchel o ddiweithdra; lefelau isel o gymwysterau AU).
33. Mae ffactorau eraill mae'n bosibl y byddwn yn dymuno eu cymryd i ystyriaeth yn cynnwys:
- Y cymysgedd o bynciau a chwrdd â blaenoriaethau cyflogwyr lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
 - Cyfraddau dilyniant o AB a darpariaeth ôl-16 arall i AU yn y rhanbarth ac y tu hwnt.

Ein cynigion

⁵ [<http://www.hefce.ac.uk/widen/challenge/evidence/>]

34. Mae angen i ni wneud rhagor o waith i sefydlu ein cronfa o dystiolaeth, gan gymryd i ystyriaeth y ffactorau uchod ac unrhyw faterion neu ffactorau eraill sy'n dod i'r amlwg yn yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod anghenion rhanbarthol ac i ddiffinio ffiniau rhanbarthol mesuradwy yn well.
35. Sut bynnag, mae angen i ni roi unrhyw drefniadau newydd ar waith erbyn 2011/12.
36. Felly rydym yn bwriadu gwahodd darparwyr i gydweithio a dechrau'r gwaith o ganfod angen ar lefel leol a rhanbarthol yng Nghymru, gan ddefnyddio'r wybodaeth feintiol ac ansoddol sydd ar gael ac ymgynghori â rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys cyflogwyr, yn y rhanbarth. Bydd hyn o gymorth pan fyddwn yn ystyried unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r modd y cyllidir darpariaeth ar sail ranbarthol, ac ategir y gwaith hwn gan y gronfa o dystiolaeth feintiol ac ansoddol wrth iddi ddatblygu.

Cw2 A ydych chi'n cefnogi'r ffordd yr ydym yn disgwyl i 'angen' rhanbarthol gael ei ganfod? Os nad ydych, a oes ffactorau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth?

Strategaethau rhanbarthol – Ein Cynigion

37. Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn gwahodd pob darparwr addysg uwch (SAUau a CABau) i gydweithio i baratoi strategaeth ranbarthol ar gyfer pob modd o ddarpariaeth AU yn eu rhanbarth. Disgwyliem i'r Brifysgol Agored gymryd rhan yn y broses hon ym mhob un o'r tri rhanbarth. Dylai'r strategaethau gwmpasu'r meysydd polisi ehangu mynediad, dysgu ac addysgu (gan gynnwys cyfrwng Cymraeg), a thrydedd genhadaeth, ond ni fyddai'n rhaid iddynt gynnwys ymchwil. Hefyd disgwyliem i'r strategaethau ystyried agweddau cydweithiol posibl at fuddsoddi cyfalaf a rhannu gwasanaethau. Gan ddefnyddio'r ffynonellau data sydd ar gael, ac yn sgil ymgynghori â rhanddeiliaid lleol (awdurdodau lleol, darparwyr ôl-16, cyflogwyr, ysgolion, ac ati), dylai'r strategaethau:
 - Nodi'r angen am ddarpariaeth addysg uwch yn y rhanbarth dan sylw mewn perthynas â maint y ddarpariaeth, y math o ddarpariaeth, manylion pynciau, moddau astudio, ac ati, gan gymryd i ystyriaeth y mathau o ffactorau a restrwyd uchod;
 - Crynhoi canlyniadau archwiliad o ddarpariaeth AU yn y rhanbarth ar draws yr holl ddarparwyr, gan gynnwys y Brifysgol Agored;
 - Nodi unrhyw ddarpariaeth newydd sydd ei hangen yn y rhanbarth (math, pwnc, lefel, modd), y mae galw pendant amdani, ynghyd â chrynodeb o'r dystiolaeth bod galw amdani, a sut y gellid datblygu hyn;
 - Crynhoi canlyniadau archwiliad o lwybrau a chyfluoedd dilyniant lleol o lefel 3 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) a darpariaeth sy'n seiliedig ar waith (gan gynnwys

prentisiaethau) i ddarpariaeth AU, yn dilyn ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol;

- Tynnu sylw at ddyblygu a chynnwys cynlluniau i leihau cystadleuaeth ddibwys leol a dyblygu gwastraffus drwy gydweithio;
- Dangos sut y byddai'r partneriaid yn gweithio gyda chyflogwyr a'r Cynghorau Sgiliau Sector, fel y bo'n briodol, i nodi lle y gallai gweithio ar y cyd fod o gymorth i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar y rhanbarth;
- Nodi datblygiadau cyfalaf cydweithiol a gwasanaethau a rennir a all gefnogi'r strategaeth ranbarthol;
- Cymryd yr iaith Gymraeg a'r angen am ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg i ystyriaeth, gan gynnwys rôl y Coleg Ffederal, wrth iddi ddatblygu;
- Manylu ar y trefniadau cyswllt ffurfiol a roddir yn eu lle i hwyluso cydweithio rhanbarthol;
- Asesu effaith y cynigion yn y strategaeth ranbarthol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

38. Bwriadwn gyhoeddi gwahoddiad i gyflwyno strategaethau rhanbarthol, ynghyd ag arweiniad ffurfiol, yn y gwanwyn a disgwylir i'r strategaethau gael eu cyflwyno erbyn mis Tachwedd 2010. Bwriadwn roi gwybodaeth bellach am ein cronfa o dystiolaeth yn y cylchlythyr a gyhoeddwn i roi arweiniad i'r rhanbarthau. Byddwn yn gweithio'n barhaus gyda'r partneriaethau rhanbarthol i ddadansoddi a datblygu'r strategaethau. (Sylwer: nid ydym yn disgwyl i strategaethau gael eu datblygu ar unwaith mewn ymateb i'r cylchlythyr hwn, er ei bod hi'n ddigon posibl y bydd y sefydliadau'n dymuno dechrau meddwl am y mater a'i drafod â'u partneriaid.)

39. Bydd rhai elfennau o gyllid yn cefnogi'r strategaethau rhanbarthol. Bydd y dimensiwn rhanbarthol yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad o'n Methodolegau Cyllido y byddwn yn ei gynnal yng ngoleuni *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Wrth wneud hyn, byddwn yn cynnal cydbwysedd rhesymol ar draws pob agwedd ar gyllido. Daw'r cyllid i ddechrau o'r ffynonellau canlynol:

- Arbedion a gynhyrchir drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig lle y mae'r rhain, drwy aiddosbarthu gweithgareddau, yn cynhyrchu darvoudion maint;
- Credydau wedi'u cyllido a gynhyrchir drwy frigidorri o'r rheiny sydd eisoes ar gael, fel rhan o'r defnydd strategol o gyllid craidd (fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau i'r trefniadau cyllido (Cylchlythyr W09/31/HE, para 16 (v) a (vii));
- Gan ddibynnu ar ddatblygu'r polisi ymhellach gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, credydau posibl sy'n gysylltiedig â Graddau Sylfaen a ddarperir drwy bartneriaethau, o fewn blaenoriaeth ddatblygol LICC ar gyfer Graddau Sylfaen (gweler *Er Mwyn Ein Dyfodol*, paragraffau 62-64), ac sy'n cael eu cyllido o arian a

ryddheir o ganlyniad i Adolygiad Jones o Addysg Uwch yng Nghymru.

- Dyraniadau rhanbarthol i gefnogi strategaethau penodol (e.e. Trydedd Genhadaeth, HCA, fel y nodwyd ym mharagraffau 17 a 18 uchod).
40. Disgwylw'n ddyrannu'r credydau wedi'u cyllido, neu unrhyw ffurf arall ar gyllid, sydd ar gael i ddechrau i gefnogi datblygiadau rhanbarthol rhwng y tri rhanbarth ar sail cynigion manwl (gan gynnwys tystiolaeth o'r farchnad) wedi'u hasesu ar sail gystadleuol yn erbyn y meini prawf cyhoeddedig. Bydd cynigion llwyddiannus yn derbyn credydau wedi'u cyllido yn 2011/12 a gaiff eu hymgorffori yn y blynyddoedd i ddod.

Cw3 A ydych chi'n cefnogi'r ffordd y bwriadwn fwrw ymlaen â chynllunio a chyflwyno addysg uwch drwy ddefnyddio strategaethau rhanbarthol? Os nad ydych, a oes newidiadau yr hoffech eu hawgrymu neu a fydddech yn argymhell mynd ati mewn ffordd arall?

Ailgyflunio a Chydweithio – Ein Disgwyladau

41. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn ategu'r polisi presennol ar ailgyflunio a chydweithio⁶. Er bod y polisi hwn yn y gorffennol wedi cael ei gyfyngu i gydweithio a chyfuniadau rhwng sefydliadau addysg uwch, mae ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gydweithio rhwng Sefydliadau Addysg Uwch*⁷ yn annog CCAUC i ystyried hefyd y posibilrwydd o gefnogi partneriaethau ehangach, lle y mae'r rhain yn cyd-fynd â'r polisi cyffredinol.
42. Nododd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru nad yw gweithgareddau cydweithiol wedi mynd i'r afael yn llawn â phryderon bod rhai sefydliadau'n rhy fach i fod yn gystadleuol. Rydym yn cytuno â hyn.
43. Yn erbyn y cefndir hwn, a chyda'r symbyliad newydd a roddwyd gan her *Er Mwyn Ein Dyfodol* (ym mhob agwedd, nid y dimensiwn rhanbarthol yn unig), rydym yn bwriadu ailddatgan ein safbwynt cyn bo hir am yr hyn y mae angen i'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru ei gyflawni yn y blynyddoedd i ddod, pa dargedau penodol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gadw llygad ar gynnydd, a beth y mae'r amodau llwyddiant (gan gynnwys ystyriaethau strwythurol) yn debygol o fod. Byddwn yn cyflwyno'r safbwynt hwn wrth i ni ddatblygu ein Strategaeth Gorfforaethol nesaf.

Cynnwys ein rhanddeiliaid

⁶<http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/W09%2032HE%20Reconfiguration%20and%20Collaboration.pdf>

⁷[http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Collaboration between HE institutions Eng.pdf](http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Collaboration%20between%20HE%20institutions%20Eng.pdf)

44. Rydym wedi ymrwymo i wneud cydraddoldeb yn fater craidd wrth ddatblygu a gweithredu polisiau a gwasanaethau, a gwerthuso a mireinio'r dulliau hyn i hybu'r agenda cydraddoldeb. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol arnom i asesu effaith ein polisiau ar grwpiau cydraddoldeb ac egluro sut y byddwn yn monitro neu'n ymdrin ag unrhyw effeithiau negyddol posibl. Bydd asesiad effaith cydraddoldeb (AEC) yn gwella gwaith CCAUC drwy sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn ein gwasanaethau, swyddogaethau, polisiau a chyflogaeth a'n bod, hyd y gallwn, yn gwneud popeth yn ein gallu i hybu cydraddoldeb a pherthynas dda rhwng gwahanol grwpiau. Mae'n ein helpu hefyd, wrth lunio polisiau, i ystyried yn ofalus effaith debygol ein gwaith a chymryd camau i'w wella a sicrhau ein bod ni'n dileu canlyniadau negyddol hyd y bo modd.
45. Cydnabyddwn fod cynnwys pobl anabl yn allweddol i lwyddiant ein gwaith a bod y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn gofyn yn benodol i ni wneud mwy nag ymgynghori'n unig â rhanddeiliaid anabl. Os ydych chi'n anabl neu os oes gennych brofiad o weithio gyda phobl anabl yn y sector ac os hoffech gymryd rhan fwy gweithgar yn ein proses llunio polisi – o ddarparu adborth i gyfrannu at asesiadau effaith cydraddoldeb – byddwch cystal â chysylltu â ni yn equality@hefcw.ac.uk a byddwn yn eich ychwanegu at ein cronfa ddata o randdeiliaid. Caiff unrhyw wybodaeth ei storio'n ddiogel a chyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu ag unrhyw sefydliad na thrydydd parti.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

46. Gwahoddwn ymatebion gan sefydliadau addysg uwch, colegau addysg bellach a darparwyr ôl-16 eraill i'r cwestiynau canlynol:
- Cw1** A ydych chi'n cefnogi'r diffiniad o 'ranbarth' yr ydym yn cynnig ei fabwysiadu? Os nad ydych, eglurwch eich cynnig chi a'r dystiolaeth drosto.
- Cw2** A ydych chi'n cefnogi'r ffordd yr ydym yn disgwyl i 'angen' rhanbarthol gael ei ganfod? Os nad ydych, a oes ffactorau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth?
- Cw3** A ydych chi'n cefnogi'r ffordd y bwriadwn fwrw ymlaen â chynllunio a chyflwyno addysg uwch drwy ddefnyddio strategaethau rhanbarthol? Os nad ydych, a oes newidiadau yr hoffech eu hawgrymu neu a fydddech yn argymhell mynd ati mewn ffordd arall?
47. Dylech anfon eich ymateb at Rachel O'Gorman yn Rachel.ogorman@hefcw.ac.uk erbyn **31 Mawrth 2010**.
48. Dylech anfon unrhyw ymholiadau at Celia Hunt neu Dr Ewen Brierley (ffôn 029 2068 2224 neu 029 2068 2291; e-bost celia.hunt@hefcw.ac.uk neu ewen.brierley@hefcw.ac.uk).

